# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Mawrth 2021

Amser: 09.15 - 11.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11112

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Yr Athro Ann John, Athro Iechyd y Cyhoedd a Seiciatreg yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe a Chadeirydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio<br>Yr Athro Alka Ahuja, Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a'r Glasoed, ac Arweinydd Clinigol Cenedlaethol, Gofal a Alluogir gan Dechnoleg (TEC Cymru), ac Arweinydd Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru<br>Yr Athro Adrian Edwards, Athro Ymarfer Cyffredinol ym Mhrifysgol Caerdydd, a Chyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth newydd Cymru ar gyfer COVID-19, Cyfarwyddwr Canolfan PRIME Cymru (canolfan Cymru gyfan ar gyfer ymchwil gofal |

| | |
|---|---|
| | sylfaenol a gofal brys) a meddyg teulu rhan amser<br>Dr David Tuthill, Pediatregydd Ymgynghorol a Swyddog Cymru yng Ngholeg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi penderfynu, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 COVID-19: iechyd meddwl ac iechyd corfforol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Ann John, yr Athro Alka Ahuja, yr Athro Adrian Edwards a Dr David Tuthill ar faterion sy'n ymwneud ag effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Covid-19 Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.